**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

**MEDI 2000 - MEDI 2001**

**CYNNWYS**

**RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD**

1. **CEFNDIR**

2. **RÔL A CHYFRIFOLDEBAU'R PWYLLGOR ARCHWILIO**

- Archwilydd Cyffredinol Cymru
- Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
- Tystiolaeth ac Adroddiadau
- Sgil-arbedion

1. **CRYNODEB O ADRODDIADAU'R PWYLLGOR A GYHOEDDWYD YN 2000-01**

**Archwiliad Ariannol**

- Cyfrif Adnoddau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer 1999-2000 ac Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru: Archwiliad Ariannol o Gyfrifon 1999-2000
- Cyfrifon Cryno y GIG (Cymru) 1999-2000

**Gwerth am Arian**

- Awdurdod Datblygu Cymru: Creu'r Awdurdod Estynedig a Chefnogaeth yr Awdurdod i Fusnesau Cynhenid Cymru.
- Coleg Gwent.
- Trefniadau Adeiladau'r Cynulliad Cenedlaethol
- Morglawdd Bae Caerdydd.
- Mynediad i Gofnodion a Gwybodaeth gan Archwilydd Cenedlaethol Cymru.
- Esgeulustod Clinigol yn y GIG yng Nghymru

**2 Amcangyfrif Incwm a Gwariant Archwilydd Cyffredinol Cymru a Rhaglen archwiliadau Gwerth am Arian 2001-2002**

1. **GWAITH Y PWYLLGOR ARCHWILIO YN Y DYFODOL**

2. **CRYNODEB**

**Atodiadau**

Atodiad A: Y Pwyllgor Archwilio: Cylch Gorchwyl
Atodiad B: Rheol Sefydlog 12: Y Pwyllgor Archwilio
Atodiad C: Aelodaeth o'r Pwyllgor Archwilio

Atodiad D: Adroddiadau’r Pwyllgor Archwilio
Atodiad E: Argymhellion adroddiadau’r Pwyllgor Archwilio a gyhoeddwyd yn ystod 2000-01

# RHAGAIR GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Pleser o’r mwyaf yw cyflwyno ail adroddiad blynyddol Pwyllgor Archwilio’r Cynulliad Cenedlaethol. Mae’r Pwyllgor yn chwarae rhan hanfodol wrth argyhoeddi pobl Cymru bod eu harian wedi cael ei wario’n briodol ac yn effeithiol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Fel gwarchodwyr arian y cyhoedd, ein nod yw gwneud datganiad clir o’n disgwyliadau bod pob corff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys y Cynulliad Cenedlaethol, yn sicrhau’r safonau uchaf wrth reoli eu materion ariannol. Gobeithiwn y bydd ein trafodion yn cyfrannu’n arwyddocaol at gael y gorau posibl o arian y trethdalwyr.

Mae’r Pwyllgor yn ddiolchgar iawn i Archwilydd Cyffredinol Cymru, Syr John Bourn, a Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru am eu gwaith caled sydd wedi’i gwneud hi’n bosib i ni ystyried nifer o agweddau pwysig ar fywyd Cymru. Rydym hefyd yn werthfawrogol iawn o agwedd bositif ac adeiladol yr holl swyddogion sydd wedi ymddangos ger ein bron. Yn ein gwaith, rydym wedi bod yn awyddus i gydnabod pethau sydd wedi’u gwneud yn dda; a hefyd i nodi lle gellid gwneud pethau yn well neu’n wahanol er mwyn rhoi gwerth eu harian i’r trethdalwyr. Rwy’n falch bod Cabinet y Cynulliad wedi croesawu holl adroddiadau’r Pwyllgor ac yn edrych i weithredu’r mwyafrif o’n hargymellion.

Bydd y Pwyllgor yn parhau’n wyliadwrus a thrylwyr i sicrhau bod archwiliad trwyadl a chywir yn cael ei wneud o wariant y Cynulliad. Mae angen i bobl Cymru deimlo’n hyderus bod eu harian yn cael ei wario’n ddoeth ac yn dda. Edrychaf ymlaen at sialens y flwyddyn nesaf yn llawn brwdfrydedd.

**Janet Davies, AC**
**Cadeirydd, Pwyllgor Archwilio’r Cynulliad Cenedlaethol**

# ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO

## MEDI 2000 - MEDI 2001

## 1. CEFNDIR

1.1 Dyma'r ail adroddiad blynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar waith y Pwyllgor Archwilio yn unol â'r hyn sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 12.2. Mae'r adroddiad yn nodi cyfrifoldebau'r Pwyllgor ac yn rhoi gwybodaeth am ei weithgareddau yn ystod ail flwyddyn ei weithrediad.

## 2. RÔL A CHYFRIFOLDEBAU'R PWYLLGOR ARCHWILIO

2.1 Rôl y Pwyllgor Archwilio yw sicrhau bod gwariant y Cynulliad yn cael ei archwilio'n iawn ac yn drylwyr. Nodir cyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio yn fanwl yn Adran 102 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (Atodiad A) ac yn Rheol Sefydlog 12 (Atodiad B). Yn fras, cyfrifoldeb y Pwyllgor Archwilio yw craffu ar adroddiadau ar gyfrifon y Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill a baratoir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol); ac ystyried adroddiadau gan yr Archwilydd Cyffredinol ar archwiliadau ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (h.y. gwerth am arian) y Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill wrth ddefnyddio'u hadnoddau i gyflawni'u swyddogaethau. Prif bwrpas y Pwyllgor yw sicrhau bod y Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill yn cadw at y safonau uchaf posibl wrth reoli eu hadnoddau ariannol.

2.2 Mae'r Pwyllgor yn gweithredu mewn ffordd amhleidiol, heb gwestiynu gwerth amcanion polisi, ond yn canolbwyntio ar ofyn a yw'r cyrff dan sylw wedi rhoi ystyriaeth briodol i reoleidd-dra, uniondeb a gwerth am arian wrth roi eu polisïau a'u rhaglenni ar waith.

a. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am ystyried yn flynyddol amcangyfrif yr Archwilydd Cyffredinol o'i incwm a'i dreuliau am y flwyddyn ddilynol ac am roi'r amcangyfrif hwnnw gerbron y Cynulliad. Wrth iddo ystyried yr amcangyfrif, mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried rhaglen arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer archwiliadau gwerth am arian yn ystod y flwyddyn nesaf. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol roi ystyriaeth i farn y Pwyllgor wrth lunio'i raglen yn derfynol.

2.4 Ym Mhennod 3, ystyrir gweithgareddau'r Pwyllgor ym mhob un o'r meysydd hyn. Mae "*An Introduction to the Audit Committee*", sy'n darparu gwybodaeth fanylach am gyfrifoldebau a gweithdrefnau'r Pwyllgor, ar gael ar Fewnrwyd y Cynulliad. (http://assembly/committees/Audit%20Committee/Main.htm)

**2.1 Archwilydd Cyffredinol Cymru**

2.5 Mae adran 102 o Ddeddf 1998 yn awdurdodi'r Pwyllgor Archwilio i gymryd tystiolaeth ac adrodd i'r Cynulliad ar sail adroddiadau a gyflwynwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Golyga hyn fod perthynas waith glòs rhwng y Pwyllgor ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Syr John Bourn. Ei waith ef yw'r dechreubwynt i raglen waith y Pwyllgor ei hun ac mae'n helpu'r Cynulliad a chyrff cyhoeddus cysylltiedig yng Nghymru i sicrhau gwerth am arian o'u gweithrediadau ac yn eu helpu i sicrhau bod eu materion ariannol yn cael eu rheoli mewn modd rheolaidd a phriodol.

**2.2 Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru**

2.6 Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yw'r prif gorff archwilio yn y sector cyhoeddus sy'n archwilio cyfrifon adrannau Llywodraeth y DU a nifer o gyrff cyhoeddus eraill. Gall hefyd gynnal astudiaethau Gwerth am Arian o'r cyrff hynny. Mae'n darparu cyngor, gwybodaeth a sicrwydd annibynnol i'r Senedd ar y modd y defnyddir cyllid cyhoeddus. Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn ymgymryd â'r gwaith archwilio ariannol ac yn cynnal archwiliadau Gwerth am Arian ar ran yr Archwilydd Cyffredinol ac yn darparu cymorth gweinyddol ar ei gyfer. Mae staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cydweithio'n glòs â'r Pwyllgor Archwilio, gan ddarparu cymorth gweinyddol ar gyfer ei sesiynau tystiolaeth.

**2.3 Tystiolaeth ac Adroddiadau**

2.7 Ar ôl ystyried adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol, bydd y Pwyllgor Archwilio, fel rheol, yn clywed tystiolaeth gan Swyddog Cyfrifo (h.y. yr uwch was sifil â chyfrifoldeb personol am y gwariant perthnasol) y corff dan sylw i ystyried materion sydd wedi'u tanlinellu yn yr adroddiad. Bydd y Pwyllgor Archwilio wedyn yn llunio ei adroddiadau ei hun ar sail y darganfyddion.

2.8 Caiff yr adroddiadau a lunnir gan y Pwyllgor Archwilio eu gosod gerbron y Cynulliad a rhaid i'r Cabinet ymateb o fewn mis. Mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi saith adroddiad o Fedi 2000 hyd Fedi 2001 (Atodiad D).

**Sgil-arbedion**

a. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi nodi bod yr arbedion ariannol potensial a nodwyd yn ei adroddiadau ac a ategir gan y Pwyllgor yn cronni ac wedi codi uwchlaw'r amcangyfrif o 7 gwaith cost yr ymchwiliadau. Cyfrifoldeb y cyrff a archwilir yw sicrhau'r arbedion hyn er y gallai hynny gymryd beth amser. Bydd y Pwyllgor, gyda chymorth yr Archwilydd Cyffredinol, yn gweithio i sicrhau bod yr arbedion hyn yn cael eu gwireddu.

a. Mae'r tabl canlynol yn codi'r arbedion potensial o adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol dros y flwyddyn ddiwethaf. Ceir manylion pellach yr arbedion yn *Rhaglen Archwiliadau Gwerth am Arian* yr Archwilydd Cyffredinol.

| | Arbedion Unigol<br><br>£000 | Arbedion Blynyddol Potensial Rheolaidd<br><br>£000 |
|---|---|---|
| **Trefniadau adeiladau'r Cynulliad Cenedlaethol** | **350** | |
| **Macsimeiddio incwm o daliadau prescripsiwn** | | **15,000** |
| **Esgeulustod clinigol** | | **1,400** |
| **Caffael yn y sector addysg bellach** | | **2,500** |
| CYFANSWM | 350 | 18,900 |

*(Ffynhonnel: Memorandwm gan Archwilydd Cyffredinol Cymru: Rhaglen Archwiliadau Gwerth am Arian, Hydref 2001)*

## 3. CRYNODEB O ADRODDIADAU'R PWYLLGOR A GYHOEDDWYD YN 2000-01

### ARCHWILIAD ARIANNOL

3.1 Caiff y cyfrifon blynyddol a baratoir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff eraill sy'n cael eu noddi a'u hariannu gan y Cynulliad eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

3 3.2 Yn ystod y cyfnod sydd o dan sylw yn yr adroddiad hwn, cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad o dan y teitl, "Cyfrif Adnoddau Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer 1999-2000 ac Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru: Archwiliad Ariannol o Gyfrifon 1999-2000". Yn ogystal â hynny mae'r Pwyllgor wedi dechrau ystyried "Cyfrifon Cryno y GIG (Cymru), 1999-2000".

**Cyfrif Adnoddau Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer 1999-2000 ac Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru: Archwiliad Ariannol o Gyfrifon 1999-2000**

3.3 Yn unol ag Adran 97 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, mae'n ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddangos cyfrifon blynyddol ar ffurf a gyfarwyddir gan y Trysorlys. Mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Parhaol, yn rhinwedd ei swydd fel Prif Swyddog Cyfrifo'r Cynulliad, roi'r cyfrif wedi'i arwyddo i'r Archwilydd Cyffredinol. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio ac ardystio'r cyfrif, a rhoi adroddiad i'r Cynulliad ar ganlyniadau ei archwiliad. Roedd y cyfrifon cyntaf o'r fath yn ymdrin â'r cyfnod 7 Mai 1999 (y dyddiad y daeth y Cynulliad i fodolaeth) hyd 31 Mawrth 2000. Cyhoeddwyd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar y cyfrifon hynny yn Ionawr 2001.

3.4 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth ar y Cyfrifon Adnoddau oddi wrth Mr Jon Shortridge, Ysgrifennydd Parhaol y Cynulliad, ac oddi wrth Mr David Richards a Mr Laurie Pavelin o Grwp Cyllid y Cynulliad ar 29 Mawrth 2001. Daeth yr adroddiad Pwyllgor a ddilynodd hynny i'r casgliad hwn:

> *"Rydym o'r farn fod y farn archwilio ddiamod ar gyfrifon adnoddau 1999-2000 yn gryn gamp gan staff y Cynulliad a oedd wedi gorfod ymdopi â chyflwyno'r system cyfrifo adnoddau law yn llaw â'r newid drosodd i ddatganoli. Fodd bynnag, rydym o'r farn y gallai'r Grwp Cyllid fod wedi rhagweld a rheoli rhai o'r problemau a wynebwyd ganddo yn well wrth baratoi cyfrifon 1999-2000.*
>
> *Rydym felly'n croesawu'r sicrwydd a gawsom gan yr Ysgrifennydd Parhaol fod trefniadau bellach yn eu lle, yn cynnwys darparu digon o staff cymwys a phrofiadol, fel bod modd cynhyrchu cyfrifon 2000-01 i safon dda ac yn unol â'r amserlen archwilio y cytunwyd arni.*

*Rydym yn hynod bryderus fod y Grwp Cyllid wedi methu diweddaru'r cysoniadau banc misol a'i fod yn cynnal llai o wiriadau o gysoniadau cyfrifon dros dro. Nodwn fod y Grwp Cyllid bellach wedi diweddaru'r cysoniadau banc misol ac wedi sefydlu gweithdrefnau i sicrhau y byddant, o hyn ymlaen, yn cael eu diweddaru'n amserol."*

3.5 Cafwyd crynodeb yn yr adroddiad hefyd o ganlyniadau gwaith archwilio ac ymchwilio ariannol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yng Nghymru ar gyfer 1999-2000, sef blwyddyn ariannol lawn gyntaf y Cynulliad. Tynnwyd sylw yn yr adroddiad at brif nodweddion yr amgylchedd rheoli ariannol y mae’r Cynulliad yn gyfrifol amdano. Mae’r rhain yn cynnwys trefniadau trosiannol y broses datganoli, trefniadau cyfrifo’r Cynulliad a’r cyrff a noddir ganddo a’r heriau ar gyfer y dyfodol.

3.6 Wrth grynhoi nododd adroddiad y Pwyllgor:
*"Ar y cyfan, ac o ystyried y newidiadau strwythurol a'r datblygiadau cyfrifo sylweddol diweddar, rydym yn fodlon fod amgylchedd rheoli ariannol y Cynulliad a'i gyrff cyhoeddus perthynol yn dda.*

*Y Cynulliad yw'r prif gorff sector cyhoeddus yng Nghymru ac mae'n rhaid iddo gael ei weld yn gosod esiampl i eraill yn y modd y mae'n rheoli ei faterion ariannol a'i lywodraethu corfforaethol. Yn y cyd-destun hwn, nid yw'r anawsterau a brofwyd wrth baratoi cyfrifon 1999-2000 a'r methiant i weithredu gweithdrefnau a dulliau rheoli ariannol sylfaenol arbennig am gyfnod estynedig yn dderbyniol ac ni ddylid caniatáu i hyn ddigwydd eto."*

3.7 Roedd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi’r ffaith bod cyfrifon 1999-1000 wedi’u cwblhau ac roedd Cabinet y Cynulliad yn ddiolchgar iddynt am y gydnabyddiaeth honno. Cafodd y Pwyllgor wybod bod yr Ysgrifennydd Parhaol wedi dod â chyfrifydd cymwys ychwanegol i’r Grŵp Cyllid a bod cyfrifon craidd 2000-01 y Cynulliad wedi cael eu cynhyrchu yn unol â’r amserlen a bennwyd gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae’r cyfrifon dros dro a’r cysoniadau banc misol wedi’u diweddaru ac mae nifer o weithdrefnau a gwiriadau, a’r trywydd archwilio, wedi’u mireinio. Mae’r Cabinet a’r Ysgrifennydd Parhaol yn rhoi pwys mawr ar gael trefniadau cadarn i ddarparu’r sgiliau a’r cyngor proffesiynol angenrheidiol wrth i brosiect yr adeilad newydd ddatblygu i’w gam nesaf. Rhoddwyd gwybod i’r Pwyllgor bod gan bob corff sector cyhoeddus yn Nghymru drefniadau i baratoi Cynlluniau Rheoli Asedion erbyn mis Ebrill 2002, ond bydd yn cymryd mwy o amser i gwblhau’r cynlluniau mewn rhai achosion.

**Cyfrifon Cryno y GIG (Cymru) 1999-2000**

3.8 Ar 1 Gorffennaf 1999, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros weinyddu’r GIG oddi mewn i Gymru (GIG Cymru) i’r Cynulliad yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru, 1998. Mae’r Cynulliad yn gyfrifol am baratoi cyfrifon cryno y cyrff

GIG yng Nghymru i'w harchwilio gan yr Archwilydd Cyffredinol. Yn 1999-2000, paratowyd cyfrifon cryno GIG Cymru gan y Cynulliad ar sail cyfrifon blynyddol unigol a gyflwynwyd gan y pum Awdurdod Iechyd a'r 16 Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru. Roedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn ymdrin â pherfformiad ariannol cyffredinol GIG Cymru ac amryw o faterion rheolaeth a dulliau rheoli mewnol yn ogystal â chrynhoi canlyniadau'r archwiliad.

3.9 Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi gwrando tystiolaeth gan Ann Lloyd, Cyfarwyddwr y GIG yng Nghymru, Sara Beaver, Prif Swyddog Cyllid y GIG yng Nghymru a Jan Williams, Prif Weithredwr Awdurdod Iechyd Bro Taf a bydd yn cyhoeddi adroddiad yn y flwyddyn sy'n dod.

## ADRODDIADAU GWERTH AM ARIAN

3.10 Cyhoeddodd y Pwyllgor Archwilio yr adroddiadau gwerth am arian canlynol yn 2000-01:

- Awdurdod Datblygu Cymru: Creu'r Awdurdod Estynedig a Chefnogaeth yr Awdurdod i Fusnesau Cynhenid Cymru.
- Coleg Gwent.
- Trefniadau Adeiladau'r Cynulliad Cenedlaethol.
- Morglawdd Bae Caerdydd.
- Mynediad i Gofnodion a Gwybodaeth gan Archwilydd Cenedlaethol Cymru.
- Esgeulustod Clinigol yn y GIG yng Nghymru

Mae argymhellion manwl yr adroddiadau hyn i'w gweld yn Atodiad E. Mae Adroddiadau Pwyllgor yn cael eu paratoi ar y pynciau canlynol:

- Mwyhau'r Incwm Mwyaf oddi wrth Daliadau Presgripsiynau
- Sicrhau Dyfodol Bae Caerdydd
- Addysgu a Hyfforddi Gweithlu Iechyd Proffesiynol y Dyfodol i Gymru

**Awdurdod Datblygu Cymru: Creu'r Awdurdod Estynedig a Chefnogaeth yr Awdurdod i Fusnesau Cynhenid Cymru.**

3.11 Ar 1 Hydref 1998, ymgymerodd Awdurdod Datblygu Cymru â phwerau a swyddogaethau estynedig pan gyfunodd â Bwrdd Datblygu Cymru Wledig ac Awdurdod Tir Cymru. Amcan y cyfuno hwn oedd sicrhau y byddai gwasanaethau datblygu economaidd yn cael eu darparu'n fwy effeithiol ac effeithlon drwy greu un corff a oedd yn well ac yn symlach. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad ar y cyfuno, gan edrych ar y materion a ganlyn:

- cynllunio a rheoli'r broses gyfuno;
- rheoli cost y cyfuno a sicrhau arbedion ariannol oddi wrtho;

- sicrhau arbedion ariannol ychwanegol wrth redeg yr Awdurdod estynedig.

Archwiliodd yr Archwilydd Cyffredinol y modd y digwyddodd y cyfuno hwn o fewn paramedrau Deddf Llywodraeth Cymru, 1998.

3.12 Mewn adroddiad ar wahân archwiliodd yr Archwilydd Cyffredinol ddull yr Awdurdod o gynorthwyo busnesau cynhenid, gan ddisgrifio prosesau’r Awdurdod ar gyfer gwerthuso, monitro a mesur effeithiolrwydd ei systemau cymorth.

3.13 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth ym Mai 2000 ar y materion oedd yn codi o adroddiadau’r Archwilydd Cyffredinol ar yr Awdurdod oddi wrth Ysgrifennydd Parhaol y Cynulliad, Jon Shortridge, a Phrif Weithredwr yr Awdurdod, Brian Willott. Esgorodd adroddiad y Pwyllgor ar y darganfyddion a ganlyn:

*Ar y cyfan, credwn fod y broses gyfuno wedi bod yn llwyddiannus, a'i bod wedi'i gwneud yn dda. Creodd yr uno Awdurdod estynedig sy'n cynnig gwasanaethau datblygu economaidd cyffredin ar draws Cymru gyfan, ac yn darparu un corff i ddatblygu'r gwasanaethau hynny i fod yn sensitif i anghenion gwahanol ardaloedd fel y Cymoedd a Chymru wledig. Yn ein barn ni, mae'r uno yn rhoi cyfleoedd gwych i'r Awdurdod atgyfnerthu ei berthynas strategol â'r Cynulliad a gwella ei gysylltiadau gweithredol â'i bartneriaid busnes ar gyfer cyflwyno gwasanaethau datblygu economaidd. Rhoddodd y broses gyfuno gyfle hefyd i'r Awdurdod edrych ar y sgôp i gael arbedion unigol mewn costau rhedeg tra'n rhoi mwy o fomentwm i fentrau gwella busnes parhaus yr Awdurdod. Bwriadwn ddychwelyd eto i edrych ar sut y mae'r Awdurdod estynedig yn cyflwyno ei wasanaethau yn fwy effeithiol ac yn gweinyddu ei weithrediadau yn fwy effeithlon wedi i effaith yr uno gael cyfle i wreiddio.*

*Yr ydym yn siomedig iawn am yr oedi wrth ddylunio a chomisiynu gwaith ymchwil i'r sector busnesau bach a chanolig yng Nghymru, o ystyried pwysigrwydd y gwaith ymchwil wrth ddatblygu polisi ar gefnogi busnesau cynhenid, datblygu rhaglenni cymorth busnes priodol a thargedu adnoddau'r Awdurdod yn effeithiol ar anghenion busnesau cynhenid.*

3.14 Croesawyd yr adroddiad a’r argymhellion a oedd ynddo gan Gabinet y Cynulliad. Yng ngolwg yr anawsterau a brofwyd gan yr Awdurdod, cytunodd y Cabinet y byddid yn ystyried datblygu egwyddorion allweddol i’w dilyn mewn cyfuniadau yn y dyfodol ochr yn ochr â chyngor oddi wrth y Comisiwn Archwilio ac oddi wrth ddiwydiant preifat. Mae’r Awdurdod wedi dechrau rhagbrofi cynlluniau gweithio hyblyg ac wedi comisiynu adroddiad ar arbedion ynni posibl yn ei swyddfeydd gan ddilyn argymhellion yr adroddiad. Mae’r Awdurdod wedi ymgymryd i ddatblygu meincnodi yn ei brosesau ar gyfer monitro ac adolygu ei gostau rhedeg. Datganodd Cabinet y Cynulliad y byddai’n cydweithio’n agos â’r Awdurdod i sicrhau bod yr ymchwil i’r sector

busnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru yn sicrhau'r effeithiolrwydd mwyaf posibl. Cydnabu'r Cabinet hefyd fod yn rhaid i'r Awdurdod sicrhau cydbwysedd priodol rhwng denu mewnfuddsoddi newydd a chynorthwyo busnesau cynhenid.

**Coleg Gwent**

3.15 Rhoddwyd caniatâd i'r Pwyllgor Archwilio gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i ystyried ymateb y Llywodraeth mewn Cofnod Trysorlys i'r adroddiad gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar reoli a llywodraethu ariannol yng Ngholeg Gwent (a elwid cynt yn Goleg Trydyddol Gwent). Rhoddwyd tystiolaeth i'r Pwyllgor gan yr Ysgrifennydd Parhaol, Steve Martin, Prif Weithredwr Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru, David Mason, Prifathro Coleg Gwent a Derek Adams, Pennaeth Is-adran Addysg Bellach ac Uwch y Cynulliad ar y problemau a gododd yn y coleg; yr hyn a aeth o'i le; y camau a gymerwyd i gywiro; a'r goblygiadau ehangach ar gyfer y sector yng Nghymru.

3.16 Rhoddodd y Pwyllgor Archwilio adroddiad wedyn ar y pryderon a godwyd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y sefyllfa a oedd ohoni yn y Coleg. Ystyriwyd y materion canlynol yn yr adroddiad:

- iechyd ariannol y Coleg a materion ariannu Ewropeaidd;
- llywodraethu a rheoli'r Coleg;
- rheolaeth ariannol y Coleg;
- monitro allanol y Coleg a materion atebolrwydd; a
- rhai o'r goblygiadau ehangach ar gyfer y sector addysg bellach yng Nghymru.

3.17 Wrth grynhoi daeth adroddiad y Pwyllgor i'r casgliad hwn:

> *"Yr ydym yn falch y gall Coleg Gwent fynd ati yn awr i gynllunio gyda mwy o sicrwydd at y dyfodol yn awr ei fod wedi setlo mater yr ad-daliad y bydd rhaid iddo ei wneud i'r Undeb Ewropeaidd o'r cronfeydd a gafodd oddi wrth Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Dylai'r digwyddiadau yng Ngwent fod yn rhybudd pwysig i bob sefydliad ar y pris aruthrol y mae rhaid ei dalu am fethu â rheoli sefydliad yn briodol a'r effaith ganlyniadol ar fyfyrwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.*
>
> *Fel y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus o'n blaen, mae'n rhwystredigaeth fawr i ni nad oes unrhyw unigolyn wedi'i ddal i gyfrif am y digwyddiadau yng Ngwent. Credwn fod hyn yn anfon y neges anghywir at bawb sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ac at y trethdalwyr sy'n disgwyl i'w harian gael ei ddefnyddio yn y ffordd orau posibl.*
>
> *Yng ngoleuni'r digwyddiadau yng Ngwent mae'r Pwyllgor hwn yn credu ei bod yn bryd mabwysiadu ymagwedd fwy cyson a chryf ar gyfer archwilio allanol y sector addysg bellach yng Nghymru. Yr*

*ydym, felly, yn annog y Cynulliad i ailystyried y trefniadau archwilio ar gyfer y sefydliadau addysg bellach yng Nghymru."*

3.18 Roedd Cabinet y Cynulliad yn ddiolchgar am y gwaith a wnaeth y Pwyllgor Archwilio wrth dynnu sylw at faes pwysig yn agenda addysg a hyfforddiant y Cynulliad. Nododd y Cabinet fod Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru (y Cyngor) yn falch o roi gwybod am adferiad parhaus Coleg Gwent. Derbyniwyd nad yw'r adferiad wedi'i gwblhau ac mae'r Cyngor yn parhau i gynorthwyo Coleg Gwent o ran mynd i'r afael â'r diffygion a ganfuwyd a monitro agweddau ar weithgaredd a pherfformiad y Coleg yn fanwl. Mae Cabinet y Cynulliad a'r Cyngor yn cytuno y dylai'r Coleg chwarae rhan flaenllaw mewn prosiectau a noddir gan arian Ewropeaidd ac mae'n disgwyl iddo ailgydio mewn gweithgaredd o'r fath o dan reolaeth dda. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Cyngor yn sicrhau y bydd y gwersi a ddysgwyd yng Ngholeg Gwent yn cael eu rhannu â'r sector cyfan.

**Trefniadau Adeiladau'r Cynulliad Cenedlaethol**

3.19 Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad ar y gwaith a wnaed gan y Cynulliad i gael a chyfarparu adeilad i fod yn gartref addas i'r Cynulliad Cenedlaethol. Cynhyrchodd y Pwyllgor Archwilio adroddiad oedd yn canolbwyntio ar bedwar prif faes yn nhrefniadau'r adeiladau:

- y penderfyniad i leoli ym Mae Caerdydd;
- rheoli'r prosiect a chaffael;
- addasu Ty Crughywel ac Adeilad y Pierhead; a
- yr adeilad newydd.

Bwriad yr adroddiad yw sicrhau y bydd y gwersi a amlygwyd yn y prosiect hwn yn cael eu lledaenu er budd pawb sy'n defnyddio adnoddau'r Cynulliad ar gyfer prosiectau cyfalaf yn y dyfodol.

3.20 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth yn Nhachwedd 2000 oddi wrth Jon Shortridge, David Richards, y Prif Swyddog Cyllid, Gerry Thomas, Pennaeth yr Is-adran Gwasanaethau Rheolaeth ac Eric McDonald, Pennaeth yr Is-adran Adeiladau. Daeth adroddiad y Pwyllgor i'r casgliad hwn:

*" Mae darparu adeiladau'r Cynulliad yn brosiect gwleidyddol sensitif ac amlwg ac yr ydym yn cydnabod bod swyddogion wedi wynebu problemau unigryw wrth reoli'r prosiect. Mae'r rhain yn cynnwys llawer o ymyrraeth wleidyddol, ansicrwydd ynghylch anghenion gweithredol y Cynulliad a'r ffaith nad oedd defnyddwyr y gellid ymgynghori â hwy am eu gofynion. Mae hyn yn golygu bod swyddogion wedi gorfod rhagdybio heb unrhyw syniad clir am yr hyn a fyddai'n angenrheidiol, o fewn amserlen dynn. Yr oedd hon yn dasg anodd ac yr ydym yn llongyfarch y swyddogion a'r contractwyr cysylltiedig am eu llwyddiant o ran darparu adeiladau o safon ar gyfer yr Aelodau mewn pryd ar gyfer agor y Cynulliad ym mis Mai 1999.*

*Yn y cyd-destun hwn, efallai nad yw'n syndod bod problemau wedi codi wrth addasu Ty Crucywel a Glanfa'r Cynulliad am nad oedd*

*modd gwneud unrhyw gynlluniau pendant. Er hynny, yr oedd pethau y gellid bod wedi'u gwneud er mwyn rheoli'r risgiau hyn yn fwy effeithiol. Yr oedd diffyg cyllideb briodol a grwp llywio ar gyfer y prosiect yn golygu nad oedd costau cynyddol, at ei gilydd, yn cael eu monitro, a gellid bod wedi osgoi anawsterau gyda'r trefniadau darlledu trwy nodi'r telerau sylfaenol mewn cytundeb fframwaith ysgrifenedig. Yr ydym yn cydnabod yr ymdrech a wnaed gan y Cynulliad i wella'r ffordd y mae'r prosiect ar gyfer yr adeilad newydd yn cael ei reoli ac yr ydym yn disgwyl iddi fod yn esiampl o arferion da.*

*Mae nifer o themâu wedi codi o'r dystiolaeth:*

- *Mae'n destun pryder mawr i ni bod y costau tebygol wedi'u tanamcangyfrif yn gyson. Mae'n hanfodol bod amcangyfrifon rhesymol yn cael eu gwneud ar y cychwyn a bod cyllidebau cynhwysfawr, cadarn yn cael eu sefydlu yn gynnar.*

- *Mae'n hanfodol bod risgiau'n cael eu rheoli'n dda os am gyflawni prosiectau'n llwyddiannus. Dylai hyn ddechrau o'r cychwyn cyntaf wrth i amryfal ddewisiadau gael eu harfarnu, ac mae'n destun pryder i ni nad oedd dadansoddiad sensitifrwydd ffurfiol yn rhan o'r arfarnu economaidd.*

- *Yr ydym yn pryderu hefyd am wendidau o ran caffael, ynghylch y contract ag ICL ar gyfer cymwysiadau meddalwedd arbenigol ac mewn perthynas â'r contract ar gyfer dodrefn swyddfa.*

- *Yr oedd llawer iawn o ymyrraeth wleidyddol yn nodwedd o'r prosiect hwn, ac nid oedd yn ymddangos i ni ei bod i gyd yn adeiladol nac yn angenrheidiol. Yr oedd y penderfyniad, braidd yn hwyr yn y dydd, i ymgymryd ag ymarfer ymgynghori i wahodd cynigion o bob rhan o Gymru, y penderfyniad wedyn bod yn rhaid lleoli'r Cynulliad yng Nghaerdydd, ac, yn ogystal, y penderfyniad i ddefnyddio Glanfa'r Cynulliad, i gyd yn benderfyniadau nad oedd, yn ein barn ni, fawr o gyfiawnhad ar eu cyfer."*

3.21 Ymatebodd Cabinet y Cynulliad yn ffafriol i'r adroddiad drwy gytuno ag argymhellion ar gyfer prosiectau yn y dyfodol, fel dadansoddiad sensitifrwydd ar gyfer gwaith gwerthuso economaidd, gosod cyllidebau pendant ar gyfer prosiectau cyfalaf a monitro costau. Cytunodd y Cabinet â chasgliadau'r adroddiad ar yr angen i gostau prosiect adlewyrchu'r gost gyfan i'r Cynulliad ac nid y gost ariannol yn unig, a chytunwyd y byddai'r Swyddogion yn adolygu ac yn diweddaru'r arfer caffael i sicrhau na fydd y gwendidau a ganfuwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn cael eu hailadrodd. Ymgymerodd y Cabinet i adolygu cost a buddion prynu'r brydles hir ar adeilad y Pierhead a'r defnydd o Dy Crughywel yn y dyfodol. Datganodd y Cabinet hefyd y byddai Fforwm Adeiladu Cynulliad yn cael ei sefydlu i

ystyried cystadlaethau cynllunio at y dyfodol, anogaethau i ffrwyno costau, cynnwys ffioedd cynigion, costio oes cyfan a pheirianneg gwerth.

**Morglawdd Bae Caerdydd**

3.22 Roedd adroddiad yr Archwilydd Cenedlaethol yn ymdrin â'r meysydd a ganlyn:

- cost adeiladu'r morglawdd a chreu'r llyn dwr croyw;
- rhoi'r morglawdd ar waith a'r trefniadau olynu a wnaed ar gyfer Bae Caerdydd yn dilyn dirwyn y Gorfforaeth Datblygu i ben; a
- y trefniadau ar gyfer nodi a rheoli'r rhwymedigaethau amgylcheddol a'r gofynion a allai godi mewn cysylltiad â'r prosiect.

3.23 Cynhaliwyd sesiwn tystiolaeth ar adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yng Ngorffennaf 2000 gyda'r Ysgrifennydd Parhaol a Mr Michael Boyce, cyn Brif Weithredwr Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd yn dystion. Casgliad adroddiad y Pwyllgor ar y Morglawdd oedd:

> *"Bu adeiladu Morglawdd Bae Caerdydd yn brosiect o gryn bwys a bu pwysau gwleidyddol a chyhoeddus mawr o'i herwydd. Er ein bod yn cydnabod camp ei gyflawni, mae sawl effaith nad yw wedi ei hasesu na'i theimlo eto. Denodd y Morglawdd gryn dipyn o fuddsoddi a datblygiadau eraill i ardal De Caerdydd, ond ni ddylid anghofio y gallai fod rhagor o effeithiau eto ar yr ardal a fydd yn anos i'w rhagweld ac a fydd yn llai manteisiol i'r bobl hynny sy'n byw gerllaw Bae Caerdydd, yn ogystal ag i fywyd gwyllt De Cymru. Bydd gan y Pwyllgor Archwilio ddiddordeb mawr yn y dyfodol mewn materion megis cronni'r llyn dwr croyw, yr effaith ar dai yn yr ardal, swyddogaeth a pherfformiad yr Awdurdod Harbwr, cwblhau Gwarchodfa Gwlyptir Gwent a'r dulliau rheoli a ddefnyddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn prosiectau cyffelyb yn y dyfodol."*

3.24 Croesawyd yr adroddiad gan Gabinet y Cynulliad a derbyniodd argymhellion y Pwyllgor ar gyfer sicrhau'r budd mwyaf o fodolaeth y llyn dwr croyw a dysgu'r gwersi o'r trefniadau rheoli datblygu ar gyfer prosiectau eraill sy'n golygu buddsoddi symiau sylweddol o arian cyhoeddus. Roedd y Cabinet yn credu bod amheuaeth a ellid cyfiawnhau gwerthusiad economaidd newydd o'r Morglawdd a'r Bae er ei fod yn bwriadu ymgynghori â'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Chyngor Sir Caerdydd ar fater gwerthuso.

3.25 Yn ystod yr amser adrodd, roedd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cwblhau adroddiad dilynol ar weithredu trefniadau olynydd i Fae Caerdydd. Rhagwelir bydd y Pwyllgor yn ei ystyried yn 2002.

**Mynediad i Gofnodion a Gwybodaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru**

3.26 Yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 19 Hydref 2000, ymgymerodd yr Archwilydd Cyffredinol i lunio papur a fyddai'n rhestru'r hawliau sydd

ganddo i weld dogfennau a gwybodaeth at ddibenion archwilio cyfrifon a chynnal ymchwiliadau gwerth am arian. Mae perthynas uniongyrchol rhwng y graddau y gall yr Archwilydd Cyffredinol ddilyn hynt arian cyhoeddus ac effeithiolrwydd gwaith y Pwyllgor Archwilio wrth arfer ei swyddogaethau statudol. Cynigiodd papur yr Archwilydd Cyffredinol y dylid dileu'r cyfyngiadau presennol ar ei allu i archwilio cwmnïau cyfyngedig. Rhoddodd y papur wybod i'r Pwyllgor hefyd fod y Llywodraeth y DU wedi gofyn i'r Arglwydd Sharman wneud adolygiad o archwilio ac atebolrwydd yn y llywodraeth ganolog. Er nad yw'r adolygiad yn rhoi ystyriaeth benodol i ddigonoldeb pwerau Archwilydd Cyffredinol Cymru, teg yw dweud bod y materion a godwyd ynghylch pwerau'r Rheolwr a Chyfrifydd Cyffredinol yn berthnasol hefyd yng nghyd-destun Cymru.

3.27 Casgliad adroddiad y Pwyllgor oedd:

> *"Croesawn adroddiad yr Arglwydd Sharman fel cam sylweddol ymlaen i wella'r trefniadau archwilio ac atebolrwydd ar gyfer y sector cyhoeddus. Anogwn swyddogion y Cynulliad i ystyried perthnasedd ei argymhellion i gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn ofalus.*
>
> *Mae'r Arglwydd Sharman yn rhoi dadl dros gael mwy o hawliau mynediad i lyfrau a chofnodion i'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol. Roedd yr hawliau mynediad cyfredol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru fel y nodwyd yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998 yn seiliedig ar y rhai a oedd ar gael i'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol ar y pryd. Felly mae dadl gref dros gynyddu hawliau Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol ag unrhyw newidiadau a wnaed i rai'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol."*

3.28 Croesawodd Cabinet y Cynulliad yr adroddiad a chymeradwyodd yr argymhellion a wnaed ynddo. Roedd y Cabinet yn derbyn y dylid penodi'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilydd cyfrifon unrhyw gyrff newydd a noddir gan y Cynulliad ac y dylid galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i archwilio cwmnïau cyfyngedig. Derbyniwyd hefyd yr argymhelliad y dylid rhoi'r hawl mynediad a roddir i'r Rheolwr a Chyfrifydd Cyffredinol i Archwilydd Cyffredinol Cymru. Dywedwyd hefyd yn eu hymateb fod swyddogion y Cynulliad yn ystyried perthnasedd yr argymhellion yn adroddiad Sharman i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ac yn cadw mewn cysylltiad â swyddogion yn Whitehall sy'n paratoi ymateb y Llywodraeth i adroddiad Sharman.

**Esgeulustod Clinigol yn y GIG**

3.29 Yn 1999-2000, gwnaethpwyd hawliadau gan fwy na 700 o gleifion neu berthnasau cleifion yn erbyn Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Cymru am esgeulustod clinigol honedig. Mae'r iawndal sy'n daladwy mewn perthynas â hawliadau llwyddiannus yn amrywio'n sylweddol o £1,000 i fwy

na £3 miliwn. Mae cost yr hawliadau hyn yn dod allan o gyllideb yr NHS, gan leihau'r swm o arian sydd ar gael ar gyfer gofal iechyd. Cynhyrchodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol adroddiad ar ran yr Archwilydd Cyffredinol a oedd yn archwilio'r materion canlynol:

- costau esgeulustod clinigol i GIG Cymru;
- y prosesau rheoli sydd ar waith i drafod hawliadau'n brydlon ac mewn modd cost-effeithiol;
- a yw Ymddiriedolaethau yn rhagweithiol o ran cymryd camau i leihau'r digwyddiadau sy'n esgor ar hawliadau am esgeulustod clinigol, a'r posibilrwydd o ddatblygu ffyrdd eraill o benderfynu ar hawliadau posibl.

Nododd yr adroddiad hefyd fod cost esgeulustod clinigol yn cynyddu, fel bod llai o gyllid ar gael ar gyfer gofal am gleifion, ac na fu unrhyw ymdrech gydlynol i fynd i'r afael â'r broblem hyd yn ddiweddar.

3.30 Ym Mawrth 2001, cymerodd y Pwyllgor Archwilio dystiolaeth oddi wrth Ann Lloyd, Cyfarwyddwr GIG Cymru, Gren Kershaw, Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych, Alison Walcot o Wasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru, Sarah Beaver, y Prif Swyddog Cyllid dros y GIG yng Nghymru ac Ian Biggs o Gronfa Risg Cymru. Ym Mai 2001, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth oddi wrth David Edwards, Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro, Susan Hobbs, Prif Nyrs Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro, Hilary Peplar, Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru a Julie Parry, Pennaeth Rheoli Risg, Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru. Casgliad adroddiad y Pwyllgor oedd:

*"Mae esgeulustod clinigol yn y GIG yng Nghymru yn broblem ddifrifol. Nid yw'n dderbyniol fod dinasyddion Cymru sy'n defnyddio ein gwasanaeth iechyd yn wynebu'r risg o boen a dioddefaint dianghenraid, yn aml gyda chanlyniadau tymor hir difrifol. Mae costau esgeulustod clinigol yn cynyddu o hyd, gan leihau'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer gwella pobl. Dim ond yn gymharol ddiweddar y gwnaed unrhyw ymdrech wirioneddol tuag at ymdrin â digwyddiadau esgeulustod clinigol yng Nghymru. Mae'r GIG wedi dechrau symud i'r cyfeiriad cywir ond mae'r symud hwn wedi'i darfu'n ddifrifol gan ddiffyg gwybodaeth rheoli trylwyr a'r diwylliant caeedig sy'n parhau mewn rhai meysydd. Tra bo rhai camau positif wedi'u cyflwyno, fel datblygu safonau rheoli risg, a rhai arferion da wedi eu cyflwyno mewn ymddiriedolaethau unigol, mae rhai pryderon yn parhau ynghylch a yw'r GIG, hyd yn oed yn awr, yn ystyried hyn fel mater brys. Yn benodol, mae'r systemau ar gyfer casglu gwybodaeth berthnasol ynghylch hawliadau o bob rhan o Gymru a rhannu'r wybodaeth mewn ffordd strwythuredig yn mynd i gymryd cryn amser eto cyn eu datblygu'n llawn ac mae cydymffurfio â'r safonau rheoli risg yn parhau yn annerbyniol o*

*isel. Mae'r amser y mae'n gymryd i hawliadau gael eu penderfynu yn golygu na fydd unrhyw welliannau a wneir yn awr yn amlygu eu hunain yn y system ar ffurf llai o daliadau am nifer o flynyddoedd.*

*Un pwynt terfynol yw bod angen sylweddoli mai buddiannau'r cleifion sy'n dod flaenaf. Mae gwneud camgymeriadau yn anhepgor ar adegau, ac ni chaiff esgeulustod clinigol fyth ei ddileu'n llwyr. Tra'n cydnabod y baich ariannol y mae setliadau hawliadau esgeulustod clinigol yn ei roi ar adnoddau'r GIG, rydym yn croesawu ac yn cefnogi'r ymrwymiad gan Gyfarwyddwr y GIG nad oedd yn rhan o'i strategaeth hi i amddifadu cleifion o'u hawliau cyfreithiol os na chyflawnir y dyletswydd gofal y mae ganddynt yr hawl iddo."*

3.31 Mewn ymateb dywedodd Cabinet y Cynulliad bod y Cynulliad ar hyn o bryd yn datblygu cofrestr Cymru gyfan o hawliadau esgeulustod clinigol i sicrhau bod cyrff yr NHS a'r Cynulliad yn gallu monitro hawliadau esgeulustod clinigol yn well. Datblygir Grwp Rheolwyr Hawliadau i edrych ar yr arfer gorau o ran rheoli hawliadau esgeulustod clinigol. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor bod y Cynulliad yn gweithio'n agos â'r Adran Iechyd gyda golwg ar sefydlu Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion newydd. Mae'r Cynulliad a chyrff yr NHS wedi cytuno ar isafswm lefel y wybodaeth sydd i'w gadw ar y Gofrestr Taliadau Arbennig a Cholledion Cymru gyfan newydd. Bu'n rhaid i bob corff NHS gasglu a chofnodi'r wybodaeth am bob hawliad esgeulustod clinigol a wnaed ers 1 Ebrill 2001 a bydd y system yn cadw cofnod llawn o bob achos cyfredol erbyn diwedd 2001-02. Mae Cronfa Risg Cymru yn ymwybodol bod nifer o feysydd, lle gwnaeth camgymeriadau anghlinigol gyfrannu at ganlyniadau croes, wedi cael eu nodi yn adroddiad Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Mewn cydweithrediad â'r Cynulliad, mae'n arolygu Safonau Rheoli Risg Cymru, yn enwedig ar gyfathrebu a rheoli cofnodion, i geisio gwella perfformiad mewn ymddiriedolaethau yn y meysydd penodol hynny. Fel rhan o weithrediad Cynllun yr NHS i Gymru, un o'r prif feysydd sy'n cael eu datblygu yw cofnodion cleifion electronig. Wrth i rwydweithiau clinigol gael eu datblygu, mae'r angen i drosglwyddo gwybodaeth cleifion yn dod flaenaf. Er mwyn cyflawni hyn, caiff safonau cyffredin a chydnawsedd systemau eu datblygu.

**Amcangyfrif o Incwm a Gwariant Archwilydd Cyffredinol Cymru a Rhaglen archwiliadau Gwerth am Arian 2001-2002**

a. Penderfynodd y Pwyllgor Archwilio yng nghyfarfod Hydref 2000 mai £2,145,000 fydd cyllideb archwiliadau gwerth am arian yr Archwilydd Cyffredinol, i gynnwys archwiliadau ariannol a gwaith gwerth am arian yn 2001-2002. Roedd hyn yn gynnydd o £220,000 net ar 2000-2001. Ar wahan i 2.7% o'r cyfanswm sy'n cyfrif am gynnydd mewn costau o'i gymharu â'r flwyddyn gyfredol, y prif reswm am y cynnydd oedd y cyfrifon ychwanegol sydd i'w harchwilio, yn enwedig yn y sector addysg, a chyfrifon mwy cymhleth, megis cyfrif adnoddau'r Cynulliad.

b. Gofynodd yr aelodau i’r Archwilydd Cyffredinol ystyried yr eitemau canlynol mewn rhaglenni archwilio gwerth am arian yn y dyfodol:

- rhoi blaenoriaeth i arolwg o gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol er mwyn hysbysu polisi’r Cynulliad mewn amrywiol feysydd gan gynnwys cynhwysiant cymdeithasol
- roedd adolygiadau o wasanaethau arlwyo a glanhau ysbytai yn cynnwys 'gwerth am oes' a gwerth am arian. Dylai’r rhain ddigwydd cyn gynted â phosib fel bod ffynonellau MRSA yn gallu cael eu difa er mwyn darparu mwy o brydau maethlon i helpu cleifion i wella’n gyflym
- dylanwad ysbytai preifat ar hyd rhestri aros ysbytai
- effeithiolrwydd grantiau adnewyddu tai mewn cysylltiad â’r adroddiad ar ddigartrefedd a chysgu allan
- byddai lefelau salwch yn yr heddlu yn cael eu harchwilio petai gan yr Archwilydd Cyffredinol bwerau yn y maes hwn
- gallai adroddiad arfaethedig ar effeithiolrwydd grantiau cymorth rhanbarthol dewisol hysbysu trafodaethau’r Pwyllgor Datblygu Economaidd

## 4. GWAITH Y PWYLLGOR ARCHWILIO YN Y DYFODOL

4.1 Mae’r Pwyllgor Archwilio yn disgwyl ystyried y materion canlynol yn ei raglen waith ar gyfer 2001-2002:

- Cau Canolfan y Celfyddydau Gweledol
- Rheoli ystad yr NHS
- Adnewyddu a gwerthu Ystad yr NHS
- Gweithredu trefniadau olynydd i Fae Caerdydd
- Rheoli ystad addysg bellach
- Arolwg o gymorth arian cyhoeddus i brosiect LG
- Gweinyddu cyllid strwythurol yr UE
- Gwasanaethau glanhau ysbytai
- Gwasanaethau arlwyo mewn ysbytai
- Caffael systemau TG y Cynulliad
- Rheoli casgliadau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
- Cynnal a chadw Ffyrdd Cysylltu

Yn ogystal, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn bwriadu adrodd ar gyfrifon 2000-2001 y Cynulliad Cenedlaethol a chyfrifon Cryno 2000-2001 NHS Cymru, ynghyd â chyhoeddi Adroddiad Cyffredinol ar ei waith archwilio ariannol y flwyddon honno. Bydd hefyd yn adrodd os bydd ei waith yn codi unrhyw faterion penodol ynghylch rheoleidd-dra neu uniondeb.

4.2 Bydd cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Archwilio ym mis Tachwedd 2001 yn ystyried amcangyfrif yr Archwilydd Cyffredinol o incwm a gwariant y flwyddyn sy’n gorffen ym mis Mawrth 2003, ynghyd â’i archwiliadau gwerth am arian arfaethedig. Bydd y pwyllgor hefyd yn cytuno ar ei raglen ar gyfer tymor yr hydref.

## 5. CRYNODEB

5.1 Mae Pwyllgor Archwilio’r Cynulliad Cenedlaethol wedi cymryd tystiolaeth ac mae wedi adrodd ar ystod eang o faterion yn ystod ail flwyddyn ei weithrediad. Mae’r materion hyn yn ymwneud â llawer o feysydd gweithgaredd y Cynulliad Cenedlaethol ac maent wedi darparu gwersi sy’n berthnasol i’r sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd yng Nghymru. Rydym yn edrych ymlaen at flwyddyn brysur yn helpu’r Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru i wario’u harian yn ddoeth ac yn dda.

**ATODIAD A**

## Y PWYLLGOR ARCHWILIO - CYLCH GORCHWYL

### Dyfyniadau Perthnasol o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998

**60. -** (1) Bydd y Cynulliad yn sefydlu pwyllgor a elwir yn Bwyllgor Archwilio neu Audit Committee.
(2) Bydd gan y Pwyllgor Archwilio nifer yr aelodau a ddarperir yn y rheolau sefydlog.
(3) Caiff aelodau'r Pwyllgor Archwilio eu hethol gan y Cynulliad o blith aelodau'r Cynulliad er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, fod cydbwysedd y pleidiau yn y Cynulliad yn cael ei adlewyrchu yn aelodaeth y Pwyllgor.
(4) Ni chaiff Prif Ysgrifennydd y Cynulliad nac Ysgrifennydd Cynulliad fod yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio.
(5) Bydd y Cynulliad yn ethol un o aelodau'r Pwyllgor Archwilio i gadeirio'r Pwyllgor ond ni chaiff aelod sy'n cynrychioli'r blaid fwyaf â rôl weithredol ei gadeirio.
(6) Ni chaiff y Cynulliad ddirprwyo unrhyw un o swyddogaethau'r Pwyllgor Archwilio ac eithrio fel a ddarperir gan adran 94(4).

**93. -** (4) Ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ôl blwyddyn ariannol gyntaf y Cynulliad, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn paratoi amcangyfrif o incwm a threuliau ei swydd ac yn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio.
(5) Caiff pob amcangyfrif o’r fath ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n cyfeirio ati.
(6) Bydd y Pwyllgor Archwilio yn archwilio pob amcangyfrif o’r fath a gyflwynir iddo ac, ar ôl gwneud hynny, bydd yn gosod yr amcangyfrif gerbron y Cynulliad gydag unrhyw addasiadau y mae'r Pwyllgor yn barnu eu bod yn briodol.
(7) Lle bydd y Pwyllgor Archwilio yn bwriadu gosod amcangyfrif o’r fath gerbron y Cynulliad gydag addasiadau, bydd y Pwyllgor yn gyntaf yn ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol ac yn rhoi sylw i unrhyw gyngor a roir ganddo.

**94. -** (1) Bydd y Cynulliad yn penodi archwilydd ar gyfer cyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru.
(4) Caiff y Cynulliad ddirprwyo i'r Pwyllgor Archwilio swyddogaeth cymeradwyo cyrff o gyfrifwyr, neu dynnu cymeradwyaeth yn ôl oddi ar gyrff o’r fath, ond ni chaiff ddirprwyo'r swyddogaethau hynny fel arall.

**96. -** (3) Gall Archwilydd Cyffredinol Cymru -
(a) archwilio neu ardystio cyfrifon person neu roi adroddiad amdanynt, neu
(b) cynnal ymchwiliadau i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd person wrth iddo ddefnyddio'i adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau, os gwneir darpariaeth i Archwilydd Cyffredinol Cymru wneud hynny drwy gytundeb a wneir gan y person naill ai gyda'r Cynulliad neu gydag un o Weinidogion y Goron.
(4) Wrth ddyfarnu sut mae arfer ei swyddogaethau o dan baragraff (b) o isadran (3), bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cymryd i ystyriaeth farn y Pwyllgor Archwilio (neu, cyn yr etholiad cyffredin cyntaf, farn yr Ysgrifennydd Gwladol) ynglyn â'r ymchwiliadau y dylai eu cynnal o dan y paragraff hwnnw.

**100. -** (1) Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal ymchwiliadau i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Cynulliad wrth iddo ddefnyddio'i adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau.
(2) Ni chaiff isadran (1) ei dehongli fel petai'n rhoi hawl i Archwilydd Cyffredinol Cymru amau haeddiannau amcanion polisi'r Cynulliad.
(3) Wrth ddyfarnu sut mae arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cymryd i ystyriaeth farn y Pwyllgor Archwilio ynglyn â’r ymchwiliadau y dylai eu cynnal o dan yr adran hon.
(4) Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru osod gerbron y Cynulliad adroddiad am ganlyniadau unrhyw ymchwiliad a gynhaliwyd ganddo o dan yr adran hon.

**102. -** (1) Caiff y Pwyllgor Archwilio ystyried a gosod gerbron y Cynulliad adroddiad am unrhyw gyfrifon, datganiad cyfrifon neu adroddiad a osodir gerbron y Cynulliad gan -
(a) Archwilydd Cyffredinol Cymru, neu
(b) yr archwilydd a benodir o dan adran 94.
(2) Os bydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Ty’r Cyffredin yn gofyn iddo wneud hynny, caiff y Pwyllgor Archwilio -
(a) ar ran y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gymryd tystiolaeth gan brif swyddog cyfrifo'r Cynulliad neu unrhyw swyddog cyfrifo ychwanegol a ddynodir o dan adran 98, a
(b) cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a throsglwyddo i'r Pwyllgor hwnnw unrhyw dystiolaeth a gymerir felly.

**103. -** (1) Caiff dogfen y mae'r isadran hon yn gymwys iddi ei chyhoeddi gan y Cynulliad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl ei gosod ger ei fron.
(2) Dyma'r dogfennau y mae isadran (1) yn gymwys iddynt -
(a) unrhyw gyfrifon, datganiad cyfrifon neu adroddiad a osodir gerbron y Cynulliad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru,
(b) unrhyw gyfrifon neu adroddiad a osodir gerbron y Cynulliad gan yr archwilydd a benodwyd o dan adran 94, ac
(c) unrhyw amcangyfrif neu adroddiad a osodir gerbron y Cynulliad o dan adran 93(6) neu 102(1) gan y Pwyllgor Archwilio.

**ATODIAD B**

## 4 RHEOL SEFYDLOG 12 - Y PWYLLGOR ARCHWILIO

**Aelodaeth**

12.1 Bydd y Pwyllgor Archwilio yn cynnwys o leiaf saith ac nid mwy nag 11 o Aelodau ac fe'i cadeirir gan aelod o grwp gwleidyddol nad yw wedi'i gynrychioli yng Nghabinet y Cynulliad. Ni all aelod o Gabinet y Cynulliad fod yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio.

**Cyfrifoldebau**

12.2 Bydd y Pwyllgor:

(i) yn arfer y swyddogaethau a nodir yn adran 93(6)-(7) o'r Ddeddf ynglyn ag amcangyfrifon a gyflwynir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru;

(ii) yn cyflwyno sylwadau i Archwilydd Cyffredinol Cymru o bryd i'w gilydd ar y ffordd y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn arfer ei bwerau i wneud ymchwiliadau i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;

(iii) yn arfer unrhyw swyddogaethau ynglyn â chymeradwyo cyrff cyfrifwyr a ddirprwyir iddo gan y Cynulliad o dan adran 94(4); a

(iv) yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad ar waith y Pwyllgor.

12.3 Caiff y Pwyllgor:

(i) adrodd i'r Cynulliad yn unol ag adran 102(1) o'r Ddeddf ar ddogfennau a osodir ger ei bron gan Archwilydd Cyffredinol Cymru neu archwilydd y swyddog hwnnw; a

(ii) cymryd tystiolaeth ac adrodd i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Ty'r Cyffredin os gofynnir iddo wneud hynny gan y Pwyllgor hwnnw.

12.4 Wrth gyflawni ei gyfrifoldebau o dan baragraff 12.3(i) ni fydd y Pwyllgor yn amau rhagoriaethau amcanion polisi'r Cynulliad nac amcanion polisi unrhyw gorff neu berson arall sy'n destun adroddiad gan y Pwyllgor.

12.5 Pryd bynnag y bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad o dan baragraff 12.3(i), bydd yn anfon copi at y Prif Ysgrifennydd. Cyn pen mis ar ôl i'r Prif Ysgrifennydd gael yr adroddiad, bydd Ysgrifennydd Cynulliad, ar ran Cabinet y Cynulliad, yn gosod gerbron y Cynulliad ymateb i adroddiad y Pwyllgor; ac os ymateb dros dro yw hwnnw, bydd yr Ysgrifennydd Cynulliad yn gosod ymateb terfynol gerbron y Cynulliad cyn pen dau fis arall.

**Cyfarfodydd**

12.6 Bydd y Pwyllgor yn penderfynu ar ei raglen waith drwy ymgynghori ag Archwilydd Cyffredinol Cymru. Gall yr Archwilydd Cyffredinol fynychu cyfarfodydd preifat y Pwyllgor, gyda chaniatâd y cadeirydd neu ar ei gais.

12.7 Ni chaiff unrhyw aelod o'r Pwyllgor gymryd rhan yn ystyriaeth y Pwyllgor ar unrhyw fater os oedd ef neu hi yn aelod o Gabinet y Cynulliad ar yr adeg berthnasol.

12.8 Caiff y Llywydd gyhoeddi canllawiau i'r aelodau ar osgoi gwrthdrawiadau buddiannau wrth iddynt gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Pwyllgor Archwilio.

12.9 Os yw'r cadeirydd wedi'i anghymhwyso rhag cymryd rhan yn ystyriaeth y Pwyllgor ar unrhyw fater o dan y rheolau sefydlog neu'n tynnu'n ôl o ystyriaeth o'r fath yn wirfoddol, bydd y Pwyllgor yn ethol aelod arall i'w gadeirio pryd bynnag y bydd y mater hwnnw'n cael ei ystyried. Ni chaiff y Pwyllgor ethol aelod o'r grwp gwleidyddol mwyaf a gynrychiolir yng Nghabinet y Cynulliad yn gadeirydd dros dro.

12.10 Gall aelod o'r Pwyllgor sydd wedi rhoi hysbysiad ymlaen llaw i'r Cadeirydd gael ei gynrychioli gan aelod o'r un grwp gwleidyddol yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor neu mewn rhan o un o'i gyfarfodydd. Bydd y grwp gwleidyddol priodol yn enwebu aelod arall o'r grwp, y mae ei enw wedi'i roi ymlaen llaw i'r Cadeirydd, i fod yn aelod dros dro o'r Pwyllgor. Rhaid i'r aelod a enwebir beidio â bod yn aelod o Gabinet y Cynulliad. Ni chaiff unrhyw aelod gynrychioli mwy nag un aelod o'r Pwyllgor mewn cyfarfod.

**Gwysio Tystion a Dangos Dogfennau**

12.11 Wrth baratoi unrhyw adroddiadau, bydd y Pwyllgor yn cymryd tystiolaeth yn ôl yr angen gan Brif Swyddog Cyfrif y Cynulliad neu gan Swyddogion Cyfrif eraill a chanddynt gyfrifoldebau sy'n berthnasol i'r materion o dan sylw.

12.12 Yn unol ag adran 74 o'r Ddeddf, gall y Pwyllgor benderfynu gwysio tystion neu fynnu bod dogfennau yn cael eu dangos. Bydd unrhyw gynnig o'r fath yn enwi'r personau sydd i'w gwysio neu'r dogfennau sydd i'w dangos.

12.13 Pan fydd y Pwyllgor wedi penderfynu gwysio tystion neu orchymyn bod dogfennau yn cael eu dangos, bydd y cadeirydd yn hysbysu'r Llywydd ynglyn â thelerau'r penderfyniad, ac yn gofyn i'r Llywydd roi hysbysiad ysgrifenedig i unrhyw bersonau perthnasol. Bydd y cyfryw hysbysiad yn cynnwys yr wybodaeth a bennir yn adran 74(6) o'r Ddeddf, ac yn cydymffurfio â gofynion adran 74(7).

12.14 Gall fod yn ofynnol i berson sydd wedi'i wysio i fynychu'r Pwyllgor Archwilio dyngu llw (neu roi cadarnhad). Os bydd unrhyw un o'r swyddogion a bennir yn adran 75(1)(a) o'r Ddeddf yn absennol, neu os yw'r cadeirydd wedi'i ddatgymhwyso rhag cymryd rhan wrth i'r Pwyllgor ystyried y mater o dan baragraff 12.7, gall cadeirydd dros dro y Pwyllgor weinyddu'r llw (neu'r cadarnhad).

12.15 Lle bydd llw i'w dyngu neu gadarnhad i'w wneud o dan baragraff 12.11, bydd ar y ffurf a nodir ym mharagraff 9.17.

# ATODIAD C

## AELODAETH O'R PWYLLGOR ARCHWILIO

Yr Aelodaeth bresennol:

| | | |
|---|---|---|
| Janet Davies (Cadeirydd) | Plaid Cymru | Gorllewin De Cymru |
| Alun Cairns | Ceidwadwyr | Gorllewin De Cymru |
| Jocelyn Davies<br>(cymerodd le Geraint Davies – 9/11/2000) | Plaid Cymru | Dwyrain De Cymru |
| Alison Halford | Llafur | Delyn |
| Ann Jones<br>(cymerodd le Brian Gibbons – 9/11/2000) | Llafur | Dyffryn Clwyd |
| Peter Law<br>(cymerodd le Jane Davidson) | Llafur | Blaenau Gwent |
| Lynne Neagle<br>(cymerodd le Lorraine Barrett – 9/11/2000) | Llafur | Torfaen |
| Dafydd Wigley | Plaid Cymru | Caernarfon |
| Kirsty Williams<br>(cymerodd le Peter Black – 9/11/2000) | Democratiaid Rhyddfrydol | Brycheiniog a Maesyfed |

## ATODIAD D

## ADRODDIADAU'R PWYLLGOR ARCHWILIO, HYDREF 2000 - MEDI 2001

| **Rhif yr adroddia d** | **Teitl** | **Dyddiad cyhoeddi** |
|---|---|---|
| 00-06 | Awdurdod Datblygu Cymru: Creu'r Awdurdod Estynedig a Chefnogaeth yr Awdurdod i Fusnesau Cynhenid Cymru. | 24 Tachwedd 2000 |
| 00-07 | Coleg Gwent | 1 Rhagfyr 2000 |
| 01-01 | Morglawdd Bae Caerdydd | 15 Chwefror 2001 |
| 01-02 | Trefniadau Adeiladau'r Cynulliad Cenedlaethol. | 3 Mai 2001 |
| 01-03 | Mynediad i Gofnodion a Gwybodaeth gan Archwilydd Cenedlaethol Cymru. | 29 Mai 2001 |
| 01-04 | Esgeulustod Clinigol yn y GIG yng Nghymru | 16 Awst 2001 |
| 01-05 | Cyfrif Adnoddau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer 1999-2000 ac Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru: Archwiliad Ariannol o Gyfrifon 1999-2000 | 6 Medi 2001 |

# ATODIAD E

## ARGYMHELLION ADRODDIADAU'R PWYLLGOR ARCHWILIO A GYHOEDDWYD HYDREF 2000 - MEDI 2001

## ARCHWILIAD ARIANNOL

### Cyfrif Adnoddau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer 1999-2000 ac Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru: Archwiliad Ariannol o Gyfrifon 1999-2000

*Ar gyfrif adnoddau 1999-2000 y Cynulliad*

i. Rydym o'r farn fod y farn archwilio ddiamod ar gyfrifon adnoddau 1999-2000 yn gryn gamp gan staff y Cynulliad a oedd wedi gorfod ymdopi â chyflwyno'r system cyfrifo adnoddau law yn llaw â'r newid drosodd i ddatganoli. Fodd bynnag, rydym o'r farn y gallai'r Grwp Cyllid fod wedi rhagweld a rheoli rhai o'r problemau a wynebwyd ganddo yn well wrth baratoi cyfrifon 1999-2000.

ii. Rydym felly'n croesawu'r sicrwydd a gawsom gan yr Ysgrifennydd Parhaol fod trefniadau bellach yn eu lle, yn cynnwys darparu digon o staff cymwys a phrofiadol, fel bod modd cynhyrchu cyfrifon 2000-01 i safon dda ac yn unol â'r amserlen archwilio y cytunwyd arni.

iii. Rydym yn hynod bryderus fod y Grwp Cyllid wedi methu diweddaru'r cysoniadau banc misol a'i fod yn cynnal llai o wiriadau o gysoniadau cyfrifon dros dro. Nodwn fod y Grwp Cyllid bellach wedi diweddaru'r cysoniadau banc misol ac wedi sefydlu gweithdrefnau i sichrau y byddant, o hyn ymlaen, yn cael eu diweddaru'n amserol.

*Ar ddatblygiadau i'r dyfodol o ran cyfrifo a chyllidebu*

i. Nodwn fod Cabinet y Cynlliad wedi penderfynu peidio cyflwyno cyllidebu ar sail adnoddau ar gyfer 2001-02 ond wedi cytuno ei gyflwyno mewn egwyddor o 2002-03. Rydym yn cymeradwyo'n llawn y penderfyniad i gyflwyno cyllidebu adnoddau a chroesawn sicrwydd yr Ysgrifennydd Parhaol fod yr holl drefniadau angenrheidiol yn eu lle i'w gyflawni'n llwyddiannus erbyn y dyddiad arfaethedig.

ii. Rydym o'r farn fod integreiddio cyfrifon awdurdodau lleol i gyfrifon y Cynulliad yn hanfodol bwysig er mwyn cael gorolwg llwyr o sut y defnyddir arian y Cynulliad. Rydym yn cydnabod fod yn rhaid mynd i'r afael â rhai materion cyfrifo sylweddol cyn y gellir cyfuno cyfrifon awdurdodau lleol yn llwyddiannus yng Nghyfrif Holl Lywodraeth Cymru. Er gwaethaf yr anawsterau hyn, anogwn y Grwp Cyllid i gymryd pob cam rhesymol ac ymarferol angenrheidiol i brysuro hyn.

iii. Rydym o'r farn fod y system newydd yn gwbl hanfodol i weithrediadau'r Cynulliad ac felly rydym yn edrych tua'r Grwp Cyllid i sicrhau ei fod yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus. Rydym hefyd yn ceisio sicrwydd na fydd y system gyfrifo bresennol yn cael ei dadgomisiynu tan fod y system newydd yn gweithio fel y'i bwriadwyd.

*Ar faterion yn codi o waith archwilio ariannol 1999-2000 yr Archwilydd Cyffredinol*

i. Rydym yn disgwyl i'r Cynulliad ddefnyddio pa bynnag ddylanwad y gall i sicrhau na fydd yr anawsterau a gafwyd gyda chyfrifon Ombwdsman Gweinyddiaeth Cymru, Comisiynydd GIG Cymru a'r ddwy set o Gyfrifon Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn ystod 1999-2000 yn cael eu hailadrodd.

ii. Nodwn sicrwydd yr Ysgrifennydd Parhaol fod gan y Cynulliad drefniadau cydymffurfio cynhwysfawr yn eu lle yn seiliedig ar ddefnyddio staff â sgiliau i ystyried ceisiadau am grantiau a allai gael eu heffeithio gan reolau Cymorth Gwladol. Rhaid i uwch reolwyr y Cynulliad barhau'n wyliadwrus yn y maes hwn gan y gallai peidio cydymffurfio â'r rheolau Cymorth Gwladol arwain at gosbau difrifol gan y Comisiwn Ewropeaidd ac embaras difrifol i'r Cynulliad.

*Ar lywodraethu corfforaethol yn y cyrff a archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol*

i. Cytunwn gyda'r Ysgrifennydd Parhaol fod yn rhaid i'r Cynulliad sicrhau bod ei adeilad newydd nodedig yn cael ei gwblhau o fewn yr amser a'r costau y cytunwyd arnynt. Rydym yn hyderus nad oes lle i ni amau'r sicrwydd a gawsom fod y trefniadau a'r sgiliau angenrheidiol yn eu lle i sicrhau bod y prosiect yn cael ei reoli'n effeithiol ac i'r safon angenrheidiol.

ii. Rydym yn disgwyl i uwch reolwyr y Cynulliad sicrhau bod mesurau priodol yn cael eu cymryd i weithredu argymhellion Pwyllgor Turnbull fel bod gan y Cynulliad, fel y prif gorff sector cyhoeddus yng Nghymru, ei drefniadau llywodraethu corfforaethol ei hun y gall eraill eu hystyried fel model o arfer gorau. Rydym o'r farn ei bod yn bwysig fod uwch reolwyr y Cynulliad yn parhau i gynghori'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddo a dangos diddordeb agos yn eu gwaith yn y maes hwn.

iii. Cytunwn fod rheoli asedion yn effeithiol yn allweddol i sicrhau gwerth da am arian. Rydym felly yn disgwyl i'r Cynulliad gynnal y momentwm yn y maes hwn er mwyn cwrdd â tharged Ebrill 2002 ar gyfer sicrhau bod gan gyrff cyhoeddus gynlluniau rheoli asedion yn eu lle.

iv. Rydym yn disgwyl i uwch reolwyr y Cynulliad, gan weithio'n agos gydag ELWa, sicrhau y nodir ac y delir yn gywir ag asedion a rhwymedigaethau'r TECs a'r Cyngor Cyllido Addysg Bellach a drosglwyddwyd ar 1 Ebrill i'r Cyngor dros Addysg a Hyfforddiant ac i fannau eraill, er mwyn sicrhau bod gan ELWa y systemau sy'n angenrheidiol yn eu lle i weithredu'n effeithiol. Rydym hefyd yn disgwyl i uwch reolwyr y Cynulliad ac ELWa sicrhau bod y TECs yn cael eu dirwyn i ben mewn modd priodol a threfnus a bod unrhyw asedion a rhwymedigaethau sy'n weddill yn cael eu gwaredu'n briodol.

## GWERTH AM ARIAN

### Awdurdod Datblygu Cymru: Creu’r Awdurdod Estynedig a Chefnogaeth yr Awdurdod i Fusnesau Cynhenid Cymru

(i) Wrth i'r Cynulliad bennu targedau arbedion ariannol mewn perthynas ag ad-drefnu cyrff cyhoeddus Cymru yn y dyfodol, argymhellwn y dylai'r targedau hynny gael eu pennu gan gyfeirio at fodel neu batrwm gwrthrychol wedi'i fwydo gan gymariaethau perthnasol a'r sectorau preifat a chyhoeddus.

(ii) Argymhellwn fod yr Awdurdod yn symud ymlaen fel blaenoriaeth i brofi trefniadau rhannu desg a fyddai'n weddol rad i'w sefydlu, yn annibynnol o'r mentrau sydd ar waith i edrych ar arferion gwaith hyblyg eraill fel teleweithio a fyddai'n debygol o ofyn am fuddsoddiad sylweddol ar dechnoleg newydd.

(iii) Argymhellwn y dylai'r Awdurdod weithredu fel esiampl i gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru trwy hyrwyddo arferion rheoli ynni da yn weithredol yn ei adeiladau ei hun a thrwy fabwysiadu agenda datblygu cynaliadwy'r Cynulliad yn frwdfrydig.

(iv) Argymhellwn y dylai'r Awdurdod hefyd gymryd camau ar unwaith i ddatblygu a chynnwys meincnodi priodol yn ei brosesau i fonitro ac adolygu ei gostau rhedeg rheoli, i gynnwys meincnodi'r defnydd a wneir o ynni a gofod yn unol â Rhan 3 o adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.

(v) Argymhellwn fod yr Awdurdod yn rhoi blaenoriaeth uchel i gwblhau'r ymchwil a gomisiynwyd i nodweddion, cyfyngiadau ac anghenion busnesau bach a chanolig yng Nghymru.

(vi) Argymhellwn y dylai'r Cynulliad sefydlu canllawiau, ar y cyd â'r Awdurdod, ar y pwyslais priodol rhwng cefnogi busnesau cynhenid a chefnogi mewnfuddsoddwyr o fewn fframwaith ei dargedau strategol a'i feini prawf perfformiad, ac y dylai'r Awdurdod ddatblygu trefniadau priodol ar gyfer asesu effeithiolrwydd ei berfformiad yn y ddau faes allweddol hyn.

### Coleg Gwent

*Iechyd Ariannol Coleg Gwent a Materion Ariannu Ewropeaidd*

(i) Yr ydym yn disgwyl i’r Coleg gynnal ei sefyllfa ariannol drwy barhau i fod yn wyliadwrus yn ei reolaeth ariannol.

(ii) Yr ydym yn disgwyl i’r Coleg wella ffabrig ei ystad mor gyflym â phosibl a chadw llygad barcut ar faterion iechyd a diogelwch tra eir i’r afael â’r dagfa o waith cynnal a chadw.

(iii) O gofio ei sefyllfa fel y sefydliad addysg bellach mwyaf yng Nghymru, rhaid i Goleg Gwent weithredu ar fyrder er mwyn sicrhau y gall fanteisio i’r eithaf ar y cyllid sydd ar gael o dan Amcan 1.

(iv) Yr ydym yn disgwyl i’r Cynulliad sefydlu gweithdrefnau priodol ar gyfer goruchwylio Cronfeydd Cymdeithasol Ewrop a dderbynnir yng Nghymru ac i gyflawni’r cyfrifoldeb newydd hwn mewn perthynas â’r angen am reolaidd-dra a phriodoldeb.

*Llywodraethu a Rheoli*

(v) Argymhellwn fod Corff Llywodraethu pob sefydliad yn y sector yn ymgymryd ag archwiliad manwl o’i ofynion o ran sgiliau ac yn mynd ati i ddiwygio ei aelodaeth yn unol â’r darganfyddiadau.
(vi) Argymhellwn fod sefydliadau eraill yn y sector yn nodi’r ffordd y mae Coleg Gwent wedi rheoli ei ailstrwythuro diweddaraf.
(vii) Mae’n destun pryder i ni fod y Coleg yn dal i wynebu anawsterau wrth gynhyrchu gwybodaeth reoli am nifer y myfyrwyr y mae’n eu cofrestru. Mae’r Pwyllgor yn disgwyl cael cadarnhad o ateb cynnar i’r broblem hon.
(viii) Ceisiwn gadarnhad i’r Pennaeth fod yn destun proses werthuso gyflawn ar ddiwedd ei ail flwyddyn yn y swydd.
(ix) Mae angen i Goleg Gwent ffurfioli ei broses werthuso ar gyfer ei bedwar deiliad swydd hyn cyn gynted â phosibl a’i hymestyn i weddill y staff pan fydd hyn yn ymarferol.
(x) Argymhellwn y dylai’r holl sector fabwysiadu prosesau gwerthuso ffurfiol ar gyfer deiliaid swyddi hyn cyn gynted â phosibl.

*Rheoli Ariannol*
(xi) Credwn ei bod yn hanfodol i bob sefydliad fod â lefel briodol o staff cyllid cymwysedig.
(xii) Argymhellwn fod Pwyllgorau Archwilio pob sefydliad ar draws y sector yn mabwysiadu’r ymagwedd y mae Coleg Gwent wedi’i harddel ar gyfer monitro gweithredu’r argymhellion a wnaed gan yr holl archwilwyr.

*Monitro Allanol a Materion Cyfrifo*
(xiii) Yng ngoleuni’r gwaith y mae’r Coleg heb ei wneud eto mewn nifer o feysydd allweddol megis cynllunio strategol, yr ydym yn synnu at benderfyniad y Cyngor Cyllido i ailgategoreiddio iechyd ariannol y Coleg. Hoffem annog y Cyngor Cyllido i gadw llygad barcut ar y Coleg.
(xiv) Argymhellwn fod pob Corff Llywodraethu’n nodi’r pwerau sydd ar gael iddynt bellach i ddal unigolion sydd wedi bod yn esgeulus i gyfrif, a defnyddio’r pwerau hynny yn ôl yr angen.
(xv) Yr ydym yn annog y Coleg i fynd ati o ddifrif i gymryd camau cyfreithiol cost-effeithiol yn erbyn Deloitte & Touche.
(xvi) Credwn ei bod yn amserol adolygu a chryfhau’r trefniadau archwilio ar gyfer sefydliadau addysg bellach yng Nghymru. Credwn fod cryn deilyngdod mewn penodi Archwilydd Cyffredinol i Gymru fel archwilydd allanol pob sefydliad addysg bellach yng Nghymru neu, fel arall, ei wneud yn gyfrifol am benodiadau archwilio mewnol o’r fath a thrwy hynny ei alluogi i oruchwylio cysondeb safonau archwilio ar draws y sector.

*Goblygiadau ehangach ar gyfer y Sector Addysg Bellach*
(xvii) Argymhellwn y dylai’r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, gan ymgynghori â’r Pwyllgor Pwnc cyfatebol, archwilio a yw’r model a sefydlwyd ar gyfer y sector addysg bellach o golegau fel cyrff hunan-lywodraethu annibynnol yn dal yn briodol.
(xviii) Byddem yn croesawu gwybodaeth gan y Cynulliad Cenedlaethol maes o law ar y canlyniadau a gyflawnwyd o ran un o’r Rhaglen Datblygu Llywodraethu a Rheoli a’r prif nodau, amcanion a thargedau a bennwyd ar gyfer y rhan nesaf o’r rhaglen hon.

(xix) Argymhellwn y dylai’r Cyngor Cyllido sefydlu cofrestr o bob uned sydd â chylch gwaith entrepreneuraidd a dylai cwmnïau ym mhob sefydliad fonitro eu gweithgareddau gan ddefnyddio archwilio mewnol.

(xx) Argymhellwn y dylai pob sefydliad sicrhau bod ganddo arweiniad ar gyfer defnyddwyr i helpu’r staff i ddeall sut y mae eu polisi achwyn yn gweithredu.

(xxi) Oherwydd perthnasedd ehangach y digwyddiadau yng Ngholeg Gwent, argymhellwn y dylai’r Cyngor Cyllido drefnu i’r adroddiad hwn gael ei ystyried gan bob coleg Addysg Bellach yng Nghymru.

**Morglawdd Bae Caerdydd**

(i) Argymhellwn y dylai’r Cynulliad roi blaenoriaeth i gomisiynu arfarniad economaidd o ddatblygiadau ym Mae Caerdydd, gan gynnwys effaith y Morglawdd a’r llyn dwr croyw, gan ddefnyddio’r gwaith a wnaethpwyd eisoes gan Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd lle bo hynny’n briodol.

(ii) Cymeradwywn y gwersi a ddysgwyd hyd yma yn sgil y prosiect i adeiladu’r Morglawdd a chreu’r llyn dwr croyw ac argymhellwn y dylai’r Cynulliad ystyried y gwersi hynny wrth wneud trefniadau rheoli ar gyfer prosiectau eraill y buddsoddir cryn dipyn o arian cyhoeddus ynddynt.

(iii) Wrth i’r Cynulliad, yng ngoleuni profiad, feddwl fwyfwy am natur gyffredinol y trefniadau rheoli a roddwyd ar waith ar gyfer y Morglawdd a’r Bae, argymhellwn y dylid parhau i ganolbwyntio ar hyn yn strwythur rheoli’r Cynulliad. Argymhellwn hefyd na ddylai’r Cynulliad ddiystyru dewis cyfundrefn reoli wahanol rywdro yn y dyfodol, megis rheoli’r Bae fel prosiect Menter Cyllid Preifat.

(iv) Argymhellwn y dylai’r Cynulliad fynd ati i annog Cyngor Sir Caerdydd i ddatblygu mentrau penodol i greu refeniw ychwanegol o Fae Caerdydd.

(v) O ystyried maint a natur y gofynion amgylcheddol a’r rhwymedigaethau a allai ddod yn sgil adeiladu’r Morglawdd a chreu’r llyn dwr croyw, argymhellwn y dylai swyddogion y Cynulliad barhau i ddatblygu a gweithredu dulliau rheoli risg yn effeithiol er mwyn sicrhau y bydd cyn lleied ag y bo modd o alw annisgwyl am arian cyhoeddus.

**Trefniadau Adeiladau’r Cynulliad Cenedlaethol**

*Yng ngoleuni’r canfyddiadau a’r casgliadau hyn, yr ydym yn gwneud yr argymhellion canlynol:*

i) bod y Cynulliad yn cyhoeddi canllawiau i sicrhau bod dadansoddiadau sensitifrwydd yn cael eu cynnal fel rhan o unrhyw waith arfarnu economaidd yn y dyfodol;

ii) bod datganiadau ynghylch costau prosiect, cyn belled ag y bo’n ymarferol, yn adlewyrchu cyfanswm y gost i’r Cynulliad, ac nid dim ond y gost arian parod, yn enwedig pan wyddys fod y costau eraill yn sylweddol;

iii) o gofio’r ansicrwydd ynghylch yr angen am Lanfa’r Cynulliad yn y tymor hir, bod y Cynulliad yn adolygu’r defnydd ar yr adeilad ac yn datblygu cynigion manwl maes o law;

iv) bod swyddogion yn ystyried prynu’r brydles hir ar Lanfa’r Cynulliad cyn gynted ag y gellir cadarnhau bod angen yr adeilad yn y tymor hir, er mwyn lleihau’r taliadau rhent i’r graddau mwyaf posibl;

v) bod cyllidebau pendant yn cael eu pennu ar gyfer pob prosiect cyfalaf a bod cyfanswm y costau'n cael ei fonitro'n ofalus ac yn rheolaidd gydol oes y prosiect;

vi) bod y Cynulliad yn monitro cyfanswm y costau cyfalaf, y costau oes gyfan a chanlyniadau astudiaethau peirianneg ar werth fel rhan o'r trefniadau adrodd ar gyfer yr adeilad newydd;

vii) bod y Cynulliad yn cynnal adolygiad, ymhen 12 mis, o arferion caffael ar gyfer yr adeilad newydd er mwyn sicrhau nad yw'r gwendidau a nodwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cael eu gweld eto;

viii) pan fydd gwerth nwyddau a ddarperir o dan gontract yn ôl y galw yn codi'n sylweddol o'i gymharu â'r gwerth a ddisgwylid pan roddwyd y contract, bod swyddogion naill ai'n tendro ar wahân am unrhyw archeb o bwys neu, os oes rhesymau cryf iawn dros beidio â gwneud hyn, yn pwyso ar y cyflenwr presennol i negodi pris gwell. Er hynny, os nad yw'r cyflenwr yn barod i ailnegodi, dylai'r swyddogion ailystyried y penderfyniad i beidio ag aildendro;

ix) o gofio goblygiadau unrhyw amrywio ar y dyluniad o safbwynt costau, yn ogystal â'r posibilrwydd o amharu ar y gwaith adeiladu, bod y Cynulliad yn rhoi sylw arbennig o agos i unrhyw geisiadau i amrywio'r fanyleb, ac yn sicrhau bod cyn lleied ohonynt â phosibl;

x) pan fydd cyfrifoldeb ar y cyd am ran o unrhyw brosiect, bod trefniadau sylfaenol yn cael eu cadarnhau mewn cytundeb fframwaith ysgrifenedig cyn i'r gwaith ddechrau, nes y cytunir ar gontract manwl;

xi) bod y Cynulliad yn nodi cost arwynebedd llawr ar gyfer staff ac yn lleihau cymaint ag y bo'n ymarferol ar ei ofynion o ran lle;

xii) bod cynigion o ran ffïoedd yn cael eu cynnwys wrth asesu unrhyw gynigion a anfonir i unrhyw gystadlaethau dylunio, neu ymarferion tebyg, a gaiff eu cynnal yn y dyfodol;

xiii) bod unrhyw gystadlaethau dylunio yn y dyfodol yn cynnwys rhoi ystyriaeth gynhwysfawr i faterion ymarferol o ran cost, maint a faint o dir fydd ei angen;

xiv) bod cyllidebau ar gyfer prosiectau yn cynnwys darpariaethau realistig ar gyfer yr holl gostau tebygol, gan gynnwys gosodiadau a ffitiadau, gwaith tirlunio allanol a ffïoedd;

xv) bod newidiadau i ddyluniad yr adeilad newydd a fyddai'n arwain at gostau ychwanegol yn cael eu hosgoi oni bai eu bod yn gwbl angenrheidiol ac yn cael eu cymeradwyo gan y Grwp Llywio Polisi. Yr ydym yn disgwyl y bydd y gronfa digwyddiadau annisgwyl yn cael ei lleihau wrth i'r prosiect fynd rhagddo ac wrth i symiau naill ai gael eu trosglwyddo i'r gost sylfaenol (os daw risgiau i'r amlwg) neu gael eu dileu o'r gronfa digwyddiadau annisgwyl (os na ddaw risgiau i'r amlwg);

xvi) bod costio oes gyfan a thechnegau peirianneg gwerth yn cael eu defnyddio fel mater o drefn ar bob prosiect cyfalaf o bwys y bydd y Cynulliad yn ymgymryd ag ef;

xvii) bod strwythurau ffïoedd ar gyfer gwasanaethau proffesiynol mewn prosiectau cyfalaf a ariennir gan y Cynulliad yn y dyfodol yn cynnwys anogaethau cryf i ffrwyno costau, a bod y strwythur sylfaenol yn cael ei benderfynu yn gynnar yn y broses ddylunio;

xviii) bod y Cynulliad, gan fod cost yr adeiladu yn ystod cam dylunio'r cynllun wedi'i chymeradwyo bellach, yn hysbysu'r Pwyllgor am gost derfynol ffi

sylfaenol y penseiri; ac yn cadarnhau bod y contract â'r penseiri wedi cael ei lofnodi; a

xix) bod y Cynulliad yn penodi ei i Syrfëwr Meintiau ei hun mewn unrhyw brosiectau cyfalaf yn y dyfodol.

**Mynediad i Gofnodion a Gwybodaeth gan Archwilydd Cenedlaethol Cymru**

*Derbyniwn y dadleuon a fynegwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ym mharagraff 17 o'i femorandwm. Yn benodol argymhellwn:*

(i) Y dylid penodi'r Archwilydd Cyffredinol fel archwilydd cyfrifon unrhyw gyrff cyhoeddus newydd a noddir gan y Cynulliad y gellir eu sefydlu yn y dyfodol;

(ii) Y dylid rhoi awdurdod i'r Archwilydd Cyffredinol i archwilio cwmnïau cyfyngedig a sefydlwyd yn y sector cyhoeddus ac anogwn yr Adran Diwydiant a Masnach i ddatrys unrhyw rwystrau cyfreithiol sy'n atal hyn cyn gynted â phosibl; ac y dylid ehangu unrhyw hawliau newydd a roddir i'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i gael mynediad i lyfrau a chofnodion cyrff sy'n gwario arian cyhoeddus i Archwilydd Cyffredinol Cymru. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol ynghyd â Swyddfa Cymru a'r Trysorlys archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio'r pwerau sydd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru i wneud Gorchmynion o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Os na fydd yn bosibl gwneud hyn, anogwn y Cabinet i ofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol i ddatrys y mater cyn gynted â phosibl. Yn y cyfamser edrychwn tuag at swyddogion y Cynulliad i barhau i lunio cytundebau mynediad ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol gyda'r cyrff dan sylw ar ei gais.

**Esgeulustod Clinigol yn y GIG yng Nghymru**

*Yn sgil y canfyddiadau a'r casgliadau hyn rydym yn argymell:*

i. fod y rheolwyr ar bob lefel yn monitro amlder a chost esgeulustod clinigol yn ofalus, gan wneud pob ymdrech i atal hawliadau o'r fath rhag tynnu'n ormodol oddi wrth yr adnoddau sydd ar gael;
ii. fod y Gyfarwyddiaeth GIG a'r ymddiriedolaethau yn penderfynu, fel mater o flaenoriaeth, ar y wybodaeth rheoli ynghylch esgeulustod clinigol y maent am ei gofnodi mewn system genedlaethol, safonol, a nodi'r ffordd orau o ddiwallu'r angen hwn;
iii. fod Cronfa Risg Cymru yn ystyried ehangu eu dadansoddiad manwl i fwy na'r 20 achos y flwyddyn a drefnwyd er mwyn sicrhau bod y sampl yn fwy cynrychioliadol o'r hawliadau a dderbyniwyd ac yn cwmpasu ystod mor eang â phosibl o weithdrefnau a disgyblaethau meddygol;
iv. fod y GIG yn cymryd camau ymarferol i leihau amlder y camgymeriadau nad ydynt yn rhai clinigol. Dylai olrhain i ba raddau y mae'n llwyddo i leihau camgymeriadau o'r fath ac felly sicrhau arbedion ariannol, a dylai fabwysiadu'r targed o gwtogi amlder achosion o gamgymeriadau o'r fath o draean cyn pen dwy flynedd. Argymhellwn hefyd fod y Gyfarwyddiaeth GIG yn monitro'r llwyddiant o ran y targed hwn;

v. fod Cronfa Risg Cymru yn ystyried sut i roi mwy o gymhelliant i’r ymddiriedolaethau unigol wella eu cydymffurfiaeth â safonau rheoli risg Cymru;
vi. O gofio’r buddiannau disgwyliedig, fod y Gyfarwyddiaeth GIG yn datblygu cofnodion electronig ar gyfer cleifion ar fyrder;
vii. fod y Gyfarwyddiaeth GIG yn pennu i ba raddau y mae cydymffurfio â safonau rheoli risg Cymru yn effeithio ar amlder yr achosion o esgeulustod clinigol;
viii. fod yr holl ymddiriedolaethau yn gweithredu ar gyngor Cronfa Risg Cymru i gau pen y mwdwl ar hawliadau lle nad yw rhagor o weithredu yn debygol; a
**ix.** bod y Gyfarwyddiaeth GIG a’r ymddiriedolaethau yn parhau i ymchwilio i ffyrdd o uchafu’r defnydd o ddulliau amgen ar gyfer datrys hawliadau lle bo hyn yn cynrychioli gwell gwerth am arian i’r trethdalwr, o ystyried costau gweinyddol a chyfreithiol.